GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD) (CYDGRYNHOI) 2024 GORCHYMYN DIWYGIO (RHIF 1) 2026

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor"), wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 32, 35 a Rhan IV o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Y Ddeddf") a'r Ddeddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 o'r Ddeddf yn amrywio Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Lleoedd Parcio Oddi Ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2024, ("Gorchymyn 2024"), a fydd yn cau maes parcio De Hillsboro Place, Porthcawl, yn barhaol.

Mae safle'r maes parcio wedi'i glustnodi fel ardal gyhoeddus, ac felly cynigir cau'r maes parcio hwn yn barhaol er mwyn hwyluso'r gwaith o weithredu'r ardal gyhoeddus.

Gellir archwilio copi o'r dogfennau a adneuwyd, gan gynnwys y Gorchymyn, cynlluniau a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn, yn y Swyddfeydd Dinesig yn y cyfeiriad isod rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener neu maent ar gael ar-lein yn: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/ neu drwy e-bostio parking@bridgend.gov.uk neu fel arall o Lyfrgell Porthcawl, Plas yr Eglwys, Porthcawl, CF36 3AG rhwng yr oriau canlynol: Dydd Llun 9.30am - 1pm a 2pm - 6pm, Dydd Mawrth 9.30am - 1pm a 2pm - 6pm, Dydd Mercher 9.30am - 1pm, Dydd Iau 9.30am - 1pm a 2pm - 8pm, Dydd Gwener 9.30am - 1pm a 2pm - 5pm, Dydd Sadwrn 9.30am - 1pm a 2pm - 5pm.

Gwnaed y gorchymyn ar **14/10/2026** a bydd yn dod i rym ar **30/10/2026**. Os bydd unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw ef neu hwy yn unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf, gall y person hwnnw, o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y gwneir y Gorchymyn, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn. Os bydd angen yr hysbysiad neu'r gorchymyn hwn arnoch mewn fformat arall, megis print mwy, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r cyfeiriad isod, cyfeirnod cyfreithiol TRA001-1708/JPD. *Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.*

Dyddiedig: 22/10/2026

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.

TRA001-1508